

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 25AIN O FAWRTH 2019 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Stanley Williams, Arwel Davies, Bari Evans, Bob Barton (Pwyllgor Ardal Sir Dinbych Un Llais Cymru) a'r Clerc.

**1: YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Elfed Williams, Iwan Jones, Hywel Davies, Geraint Jones, Jill Evans, Falmai Evans a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

**2. DDATGAN DIDDORDEB.**

Dim.

**3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.**

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Chwefror 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.**

A. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch oddi wrth y mudiadau canlynol am gefnogaeth arian y Cyngor:-

1. Pwyllgor Rheoli'r Adnoddau Cymunedol Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.
2. Ysgol Bro Cinmeirch Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.
3. Eglwys Dyfnog Sant Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.

B. Mae'r Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi trwsio'r tyllau ar y ffyrdd canlynol:-

1. Wrth yr Hen Vicarage ar y ffordd rhwng Llanrhaeadr a Llanynys.
2. Ffordd heibio Prion Isa', Pen-y-Gerddi a Chae Glas rhwng Prion a Peniel.

C. Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi "Rhybudd" i'r perchennog symud y garafán gyferbyn a'r fynwent Capel Saron neu roi cais cynllunio am y lleoliad y garafán.

D. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ar broblemau carthffosiaeth yn y safle Maes Carfannau Cae'r Mynydd yn Saron.

E. Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Arwel Davies ei fod wedi cysylltu gyda Mr Glyn Jones i drwsio'r hysbysfwrdd ym Mhrion.

**5. CWRS HYFFORDDI UN LLAIS CYMRU.**

Derbyniwyd adroddiad Bob Barton ei fod wedi trefnu cwrs hyfforddiant Un Llais Cymru yn yr Ystafell Gymunedol Ysgol Bro Cinmeirch ar nos Lun 8fed o Ebrill 2019 rhwng 6.30 a 9.00 o'r gloch ar gost bydd £40.00 yr aelod a bydd yn mynychu'r cwrs hyfforddiant.

Cytunodd yr aelodau sydd yn bwriadu mynychu rhoi ei enwau i'r Clerc cyn gynted â phosib. Diolchwyd y Cadeirydd i Bob Barton am fynychu'r cyfarfod dros Un Llais Cymru.

**6. WEFAN Y CYNGOR.**

Cytunodd y Cynghorydd Bari Evans edrych ar ôl Wefan y Cyngor ar hyn o bryd.

**7. CYLLID.**

A. Datganiad Banc £16,051.22.

B. Penderfynwyd talu'r canlynol:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 £480.00.
2. HMRC am dreth gyflog am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 £120.00.
3. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 £744.36.
4. Cynghorydd Elfed Williams am Lwfans y Cadeirydd am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 £500.00.

## 8. CEISIADAU BLYNYDDOL AM GEFNOGAETH ARIAN Y CYNGOR.

- A. Cymdeithas Maes-y-Plwm £250.00.
- B. Pwyllgor Fynwent Capel Saron £200.00.
- C. Cymdeithas Sioe Cwn Llanrhaeadr £400.00.
- D. Hosbis St. Kentigern Llanelwy £150.00.
- E. Tîm Egni Ysgol Glan Clwyd £200.00.

## 9. MATERION CYNLLUNIO.

- A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r cais cynllunio i godi estyniad i'r annedd yn Llwyn Bach Llanrhaeadr.
- B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio cadw a newid y defnydd o flocc amwynder i adeilad amaethyddol er mwyn storio offer a pheiriannau sy'n ymwneud a rheoli'r tir ar safle Maes Carfannau Cae'r Mynydd yn Saron.

## 10. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Elfed Williams trwy e-bost ynglŷn ar ganlynol:-  
"Wythnos diwethaf cyfarfod hefo Ceris Davies a Joe Welch. Mae Ceris yn byw yn y pentre' a bydd ei phlentyn yn mynd i Frynhyfryd blwyddyn nesaf, oherwydd ei fod yn dioddef o autism mae'n cael hi'n anodd croesi'r ffordd ar ben ei hun. Roedd Ceris yn gofyn a fuasai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi, yn ddelfrydol, croesfan i gerddwyr os ddim hyn edrych eto ar gael arwyddion yn fflachio cyflymdra 30 milltir yr awr. Mae Joe wedi siarad ar Sir ac maen nhw am edrych eto ar gael rhoi sensor ar y ffordd yn y pentre' i recordio cyflymdra ceir yn mynd trwy'r pentre'.  
Pant-y-Celyn - wedi cyfarfod a rheolwr y seit ac mae o wedi datgan bydd y gwrych yn cael ei ymestyn i mewn i'r stad newydd a chlawdd lle bydd fwy o flodau cennin Pedr yn cael ei blannu.  
Iona- cysylltodd Iona a mi yng nglyn a sbwriel ar ochr y ffordd i fyny i safle melinau gwynt Brennig. Mae copi o'r llythyr ganddo'ch ac os gwelech yn dda gwnewch chi rannu ar bwyllgor.  
Brynmorfydd - mae'r Sir yn datgan na allent symud y sbwriel/lanast sydd ar ochr y ffordd i Brynmorfydd oherwydd ei fod ar dir preifat. Mi wnes i gysylltu â Chadnant ac roeddent am gysylltu ar berchnogion newydd Brynmorfydd. I fyny i ddydd Gwener ddiwethaf mae'r sbwriel dal yno, ydi'n bosib i chi ysgrifennu eto at Gadnant yn gofyn iddynt gysylltu eto ar berchnogion i symud y llanast."

## 11. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

- A. Och'r y ffordd wedi suddo wrth Tan-yr-Waen ym Mhrion.
- B. Llanast ar och'r y ffordd gyferbyn a'r cyn Eglwys ym Mhrion.
- C. Arwydd groesffordd Nant-y-Ci yn Saron dal ar goll.
- D. Ffordd yn y pant o bentref Saron tuag at Nantglyn eisiau ei thrwsio.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 29ain o Ebrill 2019 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.